## PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 26-11-21

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Eric M Jones, Eryl Jones-Williams, Anwen Hughes, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Peter Read, Dewi W Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell a Dyfrig Siencyn

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Peredur Jenkins a Gethin Glyn Williams ac Elwyn Jones (Is-gadeirydd y Cyngor)

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

### 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

### 4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 04-11-21 fel rhai cywir

### 5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

### 6. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER SWYDD PENNAETH ADRAN CYLLID

a) Cadarnhawyd trefn y diwrnod gyda'r Aelodau.

b) Gwahoddwyd Mr Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol) i gyflwyno adborth cryno o berfformiadau'r ddau ymgeisydd mewn Canolfan Asesu allanol a

gynhaliwyd 15/11/21 gan gwmni Edgecombe. Nodwyd canlyniadau'r profion seicometreg a chymwyseddau'r ymgeiswyr.

Gwahoddwyd Mr Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), i gyflwyno adborth cryno o berfformiadau'r ddau ymgeisydd mewn cyfweliad proffesiynol a gynhaliwyd gyda chefnogaeth Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

c) Cyfwelwyd dau ymgeisydd ar gyfer y swydd.

Gwahoddwyd yr ymgeiswyr i roi cyflwyniad hyd at 10 munud ar y testun 'Be ydi'r cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n wynebu'r Adran Cyllid dros y blynyddoedd nesaf a sut y byddech chi'n bersonol yn ymateb iddyn nhw?' Ymatebwyd pum cwestiwn ffurfiol a ofynnwyd gan y Cadeirydd ynghyd a chwestiynau dilynol gan yr Aelodau.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid) i gynnig sylwadau ar ymatebion yr ymgeiswyr.

ch) Cynigiwyd ac eiliwyd bod y swydd yn cael ei chynnig i Dewi Morgan

**PENDERFYNWYD penodi Dewi Morgan i'r swydd Pennaeth Cyllid**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 13:20